# Taflen Wybodaeth i Gleifion
# Mewnosod a Gofalu am Besari Cylch Gweiniol

Rydym wedi datblygu'r daflen wybodaeth hon i ateb rhai cwestiynau cyffredin am y gofal yn dilyn gosod pesari cylch gweiniol.

**Pam awgrymodd fy meddyg besari cylch gweiniol i mi?**
Yn dilyn eich trafodaeth gyda'ch meddyg, teimlwyd efallai mai pesari cylch gweiniol fyddai'r driniaeth orau ar gyfer prolaps y groth.

Gall gosod pesari cylch gweiniol fod yn driniaeth a awgrymir i gleifion oherwydd:-

- eu bod yn anaddas ar gyfer llawdriniaeth fawr i atgyweirio prolaps
- eu bod wedi penderfynu peidio â chael llawdriniaeth
- ei bod yn well ganddynt driniaeth liniarol i reoli symptomau
- bod angen mesur dros dro tra'n aros am lawdriniaeth

**A fyddaf yn gallu teimlo pesari cylch gweiniol unwaith y bydd yn ei le?**
Unwaith y bydd yn ei le, ni ddylech ei deimlo. Os oes unrhyw anghysur, mae'n debyg y bydd arnoch angen pesari cylch o wahanol faint neu efallai y bydd problem leol yn y wain.

**Beth yw sgil-effeithiau/risgiau posibl cael pesari cylch gweiniol?**
Gall rhai cleifion brofi’r canlynol:-

- ychydig o ddŵr yn gollwng
- sychder y wain
- llid y wain
- gwaed ewynnog wedi ei staenio, a rhedlif annymunol

Os oes gennych unrhyw un o'r sgîl-effeithiau hyn, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu'ch nyrs ardal.

**A fydd pesari cylch gweiniol yn cwympo allan?**
Ar ôl gosod y pesari cylch, bydd eich meddyg teulu/nyrs ardal yn gofyn i chi eistedd i fyny, sefyll i fyny a cherdded o gwmpas, peswch, er mwyn profi bod y pesari wedi'i osod yn ddiogel. Mewn achosion prin iawn, gall y pesari ddisgyn allan ar ôl i chi gyrraedd adref. Os bydd hyn yn digwydd, peidiwch â chynhyrfu. Cysylltwch â'ch meddyg teulu i archebu pesari cylch gweiniol newydd.

**A fydd pesari cylch gweiniol yn amharu ar fynd i'r toiled?**
Na, ni ddylai ymyrryd.

**A fydd pesari cylch gweiniol yn effeithio ar fy mywyd rhywiol?**
Na, ni ddylai effeithio ar eich bywyd rhywiol.

**Pa mor aml y mae'n rhaid i mi newid pesari cylch gweiniol?**
Fel arfer bydd eich pesari yn cael ei newid bob 3 - 6 mis. Bydd eich meddyg teulu neu ymgynghorydd yn eich cynghori ynglŷn â hyn.

**Pwy fydd yn newid pesari cylch gweiniol?**
Bydd eich meddyg teulu neu ymgynghorydd yn newid eich pesari am y tro cyntaf. Ar ôl hynny, bydd eich nyrs ardal yn ei newid.

**Oes rhaid i mi olchi'r rhan yma o'r corff yn amlach, nawr bod gen i besari cylch gweiniol?**
Dylech barhau fel arfer. Rydym yn cynghori, fodd bynnag, eich bod yn ymolchi eich hun gydag ychydig o ddŵr cynnes i gadw'n lân yn enwedig ar ôl mynd i'r toiled.

**Os oes gennyf unrhyw bryderon neu gwestiynau am fy nghylch gweiniol beth ddylwn i ei wneud?**
Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu nyrs ardal am gyngor a gwybodaeth bellach.

Eich nyrs ardal yw:- ________________________________

Rhif Ffôn:

**Nodiadau Personol**